# CYNGOR CYMUNED DOLWYDDELAN

## Adeilad Coffa Cwt Hers ym Mynwent Bryn y Bedd

**Lle tawel a llonydd ar gael i unrhyw un fyfyrio.**



Mae Cyngor Cymuned Dolwyddelan bellach yn cynnig lle ym mynwent Bryn y Bedd i wasgaru llwch ac adeilad coffa aml-ddefnydd lle mae modd cynnal gwasanaethau. Os hoffech chi gofio am eich anwylyd fel hyn, mae'r lleoliad hardd hwn ar gael ar gyfer gwasanaethau preifat. Mae modd gosod plac coffa y tu mewn i'r adeilad. Cysylltwch gyda Chlerc y Cyngor Cymuned am fwy o wybodaeth.

## AILGYLCHU

Fel y gwyddoch, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi rhoi'r gorau i ddosbarthu'r calendr casglu biniau. Mae copi o'r calendr ar yr hysbysfwrdd ar yr hen safle bws ac mae'r calendr hefyd ar gael ar wefan Cyngor Conwy, i'w lawrlwytho a'i argraffu, neu gallwch lawrlwytho'r ap o wefan y cyngor Preswylwyr>Ailgylchu a Gwastraff>Ap Conwy. Bydd yr ap yn anfon nodyn atgoffa bob nos Fawrth o'r hyn gaiff ei gasglu'r diwrnod canlynol. Os nad ydych chi eisiau'r ap, gallwch roi nod tudalen ar gyfer y wefan. Os byddwch chi'n dweud wrtho am gofio eich cyfeiriad yn y dyfodol, bydd y nodyn tudalen yn eich arwain yn syth at eich casgliad chi. www.conwy.gov.uk/en/Resident/Recycling-and-Waste/Check-my-collection-day.aspx

Gallwch hefyd gofrestru ar gyfer 'Fy Nghonwy'. Unwaith byddwch chi wedi cofrestru, bydd gennych dudalen hafan bersonol fydd yn dangos eich dyddiadau casglu nesaf (ymhlith pethau eraill). www.conwy.gov.uk/en/Resident/MyConwy-Account/My-Conwy-Account.aspx

Mae Cyngor Conwy yn gwneud casgliad gwastraff swmpus o hyd at 4 eitem am £30 os oes gennych unrhyw beth mawr sydd angen ei symud.

## CYNLLUN CYMUNEDOL DOLWYDDELAN

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Cyngor Cymuned Dolwyddelan wedi bod yn datblygu Cynllun Cymunedol – fframwaith ar gyfer ffyniant a lles ein cymuned yn y dyfodol. Mae Ymgynghoriaeth Rhos wedi bod yn gweithio gyda ni, a bellach, mae cael cynllun drafft wedi ein galluogi i ddechrau denu cyllid ar gyfer prosiectau penodol, gan gynnwys arwyddion newydd, adfer y senotaff a chomisiynu gwaith i adolygu dichonoldeb atgyfodi Cynllun Hydro Penamnen a chynllun llifogydd Cymunedol.